


Tri ffrind a sefydlodd y sefydliad er cof am Ulrike Michal, artist galluog a niwrolegydd a llaw-feddyg milfeddygol tra chymwys, ar Ragfyr 2ail, 2019.

Cofrestrwyd y sefydliad gyda'r Comisiwn Elusennau ar Fawrth 20fed, 2020, dridiau'n unig cyn cyhoeddi cyfnod clo cyntaf Covid-19.

Er gwaetha'r cyfnodau clo, parhaodd yr ymddiriedolwyr gyda'u gwaith o baraoti ar gyfer lansiad y rownd gyntaf o grantiau yn seiliedig ar bwrpas y sefydliad:

*"hyrwyddo, annog ac ymestyn y cariad at, gwerthfawrogiad, mwynhad, dealltwriaeth ac arfer celfyddydau cain, addurnol a chymhwysol ymysg pobl o bob oed trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celf, eiddo hanesyddol ac yn y gymuned yn gyffredinol, fel unigolion ac yn gymunedol, fel cyfranogwyr a gwylwyr, ledled gogledd Cymru, Glannau Merswy a siroedd y gororau, sef Caer, Amwythig a Henffordd."*

Bydd y ddogfen hon yn tynnu sylw at ddewis bach o'r prosiectau a gefnogodd Sefydliad Ulrike Michal yn ystod y dair rownd gyntaf o grantiau. Mae'r bedwaredd rownd yn digwydd rwan (Hydref 2024). Y bumed rownd fydd y rownd olaf a mawyaf hael y bu i'r sefydliad ei drefnu ac fe'i gwelir fel enllanw gweithgareddau'r Sefydliad.



**Rownd 1: *Beyond The Artist's Eye*, Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (Awst 2021 – Mawrth 2022)**

Roedd y brosiect hon yn canolbwyntio ar ddefnyddio meicrosgop newydd i ddal delweddau manwl a sganiau wyneb peintiad o'r Dadeni Dysg yn yr 16eg ganrif, *Madonna and Child with Angels* gan Joos Van Cleve, a ddelir yng nghasgliadau Oriel Gelf Walker, Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl. Roedd y prosiect gadwraeth hon yn rhan o waith paratoawl ail-arddangos Orielau'r Dadeni Dysg yn y Walker. Trefnwyd y prosiect gan David Crombie, Uwch-warchodwr Peintiadau, a'i ymgymeryd gan Guilia Campagnari, gwarchodwr.





**Rownd 1: Dathlu Natur, Irene Evison, Nearly Wild Weaving., ffin Sir Amwythig/ Powys (Hydref 2021 – Haf 2022)**

Trefnodd Irene Evison brosiect yn seiliedig ar wehyddu yn yr awyr agored, wedi'i hysbrydoli gan natur o gwmpas Llanymynech, y pentref sy'n pontio'r ffin rhwng Powys a Swydd Amwythig.

Roedd ei phrosiect yn cynnwys gweithio gydag ysgolion, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Amwythig, cerddwyr Camlas Trefaldwyn a naturiaethwyr yn y warchodfa natur leol.

Arddangoswyd y gwaith celf a ddeilliodd o hyn yn siop a thafarn y pentref.





**Rownd 2: *The Likeness of Things*, Oriel Kirkby (arddangosfa: Mai – Gorffennaf July 2022)**

I nodi Blwyddyn Diwylliant Bwrdeisdref Knowsley yn 2022, ymunodd Tina Ball o Oriel Kirkby gyda'r curadur celf, Catherine Marcangeli, sy'n uchel ei pharch yn rhyngwladol, ac Ystâd Adrian Henri, i lwyfannu The Likeness of Things, arddangosfa gelf sylweddol o weithiau artistiad cyfnod y Mersey Beat, John Baum, Maurice Cockrill, Adrian Henri a Sam Walsh, a'u cyd-ddylanwad ar sîn ddiwylliannol Lerpwl.




Derbyniodd Tina Ball gefnogaeth y Sefydliad i ariannu cadwraeth tri o beintiadau i'w harddangos yn yr arddangosfa ac i addasu'r oriel i ganiatáu arddangos *Scillonian Pumps* gan Maurice Cockrill yn gyhoeddus am y tro cyntaf mewn dros ddegawd.




Ochr yn ochr â'r arddangosfa, cyflenwodd Oriel Kirkby raglen ysgolion, hyfforddiant i athrawon a sgyrsiau gan guradwyr.

Gwelodd yr arddangosfa hefyd gyhoeddi catalog manwl a phrofi sut y gall arddangos celfweithiau o fri rhyngwladol fod yn brofiad trawsnewidiol i amgueddfa neu oriel gelf leol, ynghyd âu cefnogwyr, rhanddeiliaid a chymunedau.



Yn ystod eu hymweliad, cafodd yr Ymddiriedolwyr eu gwirioni gyda'r arddangosfa a'i heffaith.

**Rownd 3: *Automata Arts*, Ali Pickard (arddangosfa Ebrill – Mehefin 2023)**

Cysylltodd Ali Pickard â'r Sefydliad i'w chefnogi i greu corff newydd o waith a'i hymwneud hi mewn arddangosfa, ochr yn ochr â chwech o ymarferwyr creadigol eraill, yn Nhŷ Pawb yn Wrecsam.



Fel artist, mae Ali Pickard yn arbenigo mewn cynhyrchu awtomata gan ddefnyddio cyfuniad o frodwaith, defnydd a chyfryngau cymysg.




Yn ei chais, fe amlinellodd ei phrofiad yn annog creadigrwydd cymunedol ac fel rhan o'i phrosiect, fe gyflwynodd weithdy teuluol yn seiliedig ar dylunio-3D, symudiad mecanyddol, defnydd deunyddiau a ailgylchwyd, dychymyg a datrys problemau.

Yn ei hanerchiad yn yr oriel, fe eglurodd sut iddi lunio ac adeiladu'r awtomata sydd i'w wled yn ei harddangosfa, y sgiliau ynghlwm, sut y bu iddi gaffael y sgiliau hynny a'u pwysigrwydd i'w datblygiad artistig.

Profodd y prosiect hon sut y gall un o grantiau llai Sefydliad Ulrike Michal, gyda'r prosiect iawn a'r artist iawn, gael effaith ymhell y tu hwnt i'r cyfraniad cyllidol.

.



**Rownd 3: *Picturing Community,* Joseph Schneider (Mai 2023 – Chwefror 2024)**

Artist wedi'i leoli yng ngogledd Swydd Amwythig ydy Joseph Schneider, a gysylltodd â Sefydliad Ulrike Michal ar ddiwedd 2022 gyda'i gynlluniau ar gyfer preswylfa artist ar strydoedd tref atyniadol Croesoswallt, ar y gororau. Roedd cynlluniau ei brosiect hefyd yn cynnwys gweithdai tynnu a pheintio lluniau ac arddangosfa yn yr oriel gelf leol, QUBE.

Wedi'i ysbrydoli gan beintiad enwog Ford Maddox Brown, *Work*, gosododd Joseph y dasg iddo'i hun o blannu'i hun yn y gymuned yng Nghroesoswallt, er mwyn iddo allu creu peintiadau sy'n portreadu bywyd pobl y dref honno.

Cynhaliodd Joseph wyth gweithdy yn canolbwyntio ar beintio 'en plein air', ynghyd â chyfres o weithdai'n seiliedig ar dynnu llun, peintio a gludweithio'n uniongyrchol ar brintiadau ffotograffig o….




*At the Junction, Oswestry, 18th May 2023, gan Joseph Schneider*

… adeiladau o amgylch Croesoswallt.



Fe gynhaliodd hefyd ddigwyddiad yn cynnwys 'wal frics' wedi'i hargraffu, marcwyr sialc a dychymyg pobl ifanc. Gwelodd y prosiect hefyd arddangosfeydd mewn dau leoliad yng Nghroesoswallt.

Mae'r prosiectau hyn yn sampl o'r rhai mae Sefydliad Ulrike Michal wedi llwyddo i'w cefnogi dros y bum mlynedd ddiwethaf.

*{De: Jackie 'Car Park', Oswestry, 27th July 2023, Joseph Schneider, acrylig ar ford. Pwrcaswyd gan Gyngor Tref Croesoswallt.)*

*(Isod: Arddangosfa yn nodweddu gweithiau celf Joseph Schneider, Haf 2023)*

